Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

## Mis Chwefror a Mawrth 2023 Canfyddiadau Arolwg Panel Adroddiad 2

Cyhoeddwyd: Mehefin 2023

# Cefndir

- Mae **Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus** yn panel cynrychiolaeth genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru o drigolion 16 oed a hŷn yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i alluogi ymgysylltiad rheolaidd â'r cyhoedd er mwyn llywio polisïau ac ymarfer iechyd y cyhoedd.
- Gwahoddir aelodau'r panel i gymryd rhan mewn arolygon rheolaidd a rhoi mewnwelediad ar faterion iechyd y cyhoedd allweddol.
- Ym mis Ebrill fe wnaethom gyhoeddi adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau o arolwg Chwefror – Mawrth 2023 a oedd yn canolbwyntio ar sgrinio, cynaliadwyedd, ymgyrchoedd a phryderon cyfredol. Mae'r ail adroddiad hwn o arolwg Chwefror – Mawrth 2023 yn canolbwyntio ar ganfyddiadau sy'n ymwneud ag amgylcheddau bwyd a phwysau iach.
- Oni nodir yn wahanol, cafodd data eu pwysoli i adlewyrchu demograffeg y boblogaeth genedlaethol. Mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad demograffig o holl aelodau'r panel a wahoddwyd i gwblhau'r arolwg, dadansoddiad demograffig o'r 1,007 o gyfranogwyr a gwblhaodd yr arolwg, a chrynodeb o ddulliau'r prosiect.
- Rydym yn ddiolchgar iawn i drigolion Cymru sydd yn rhoi o'u hamser gwerthfawr i gymryd rhan yn y panel.





Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Amgylcheddau Bwyd

# Amgylcheddau Bwyd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

## I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?*

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Dylai fod yn ofynnol i fwytai roi gwybodaeth am faint o galorïau sydd mewn bwyd er mwyn i bobl allu gwneud dewis gwybodus pan fyddant yn bwyta allan | 22% | 36% | 19% | 15% | 7% |
| Dylai fod yn ofynnol i siopau cludfwyd roi gwybodaeth am faint o galorïau sydd mewn bwyd er mwyn i bobl allu gwneud dewis gwybodus wrth archebu | 26% | 37% | 17% | 14% | 5% |
| Dylai llywodraethau ddefnyddio dulliau ariannol fel trethu cynhyrchion â lefelau uchel o siwgr, i helpu i leihau faint o siwgr sy'n cael ei ychwanegu i'r bwyd yr ydym yn ei brynu | 20% | 37% | 13% | 21% | 8% |
| Dylai llywodraethau ddefnyddio dulliau ariannol i ostwng pris bwydydd iach, er enghraifft ffrwythau a llysiau ffres | 43% | 40% | 9% | 5% | 2% |
| Dylai fod cyfyngiadau ar noddi digwyddiadau a thimau chwaraeon gan gwmnïau sy'n marchnata bwyd nad yw'n iach | 27% | 36% | 18% | 14% | 5% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: 1% ar gyfer pob datganiad

# Amgylcheddau Bwyd

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad bwyta plant?***

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Dylai cyfreithiau cynllunio gael eu defnyddio i gyfyngu ar nifer y bwytai bwyd cyflym yn agos at ysgolion | 24% | 39% | 19% | 13% | 4% |
| Dylai cyfreithiau cynllunio gyfyngu ar nifer y safleoedd cludfwyd a siopau bwyd nad yw'n iach yn agos at ysgolion | 22% | 38% | 18% | 16% | 4% |
| Dylai llywodraethau ddefnyddio cyfyngiadau oed ar brynu bwyd a diodydd sydd â labeli sy'n nodi nad ydynt yn addas ar gyfer plant (er enghraifft diodydd egni sy'n cynnwys lefelau uchel o gaffein a siwgr) | 38% | 44% | 9% | 6% | 2% |
| Dylid gwahardd hysbysebu bwyd a diod nad ydynt yn iach i blant | 30% | 40% | 18% | 10% | 2% |
| Dylid cynnig dŵr a llaeth yn unig fel dewisiadau diodydd iach gyda chynigion bargeinion bwyd i blant | 32% | 49% | 11% | 6% | 2% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

# Amgylcheddau Bwyd

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad bwyta plant?***


| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Dylai bwyd sy'n cael ei ddarparu mewn ysgolion osod esiampl dda i blant a phobl ifanc o ddeiet amrywiol iach | 53% | 41% | 4% | 2% | 1% |
| Dylai rhaglenni brecwast a chinio iach fod ar waith mewn ysgolion | 42% | 38% | 10% | 7% | 2% |
| Dylid defnyddio safonau maeth i sicrhau bod bwyd mewn ysgolion yn iach | 46% | 49% | 3% | 1% | 1% |

*Gwell gennyf beidio â dweud: <1% ar gyfer pob datganiad

# Pwysau Iach

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales


## Sut byddech yn asesu eich pwysau ar hyn o bryd?*




^Gwell gennyf beidio â dweud: <1%

# Pwysau Iach

## Ydych chi'n bwriadu cymryd unrhyw gamau yn y 12 mis nesaf I gyrraedd neu gynnal pwysau iach?*^




*Data heb eu pwysoli, ni ofynnwyd y cwestiwn i'r 52 o bobl a ddywedodd eu bod yn ysgafnach nag y credant y dylent fod

^Gwell gennyf beidio â dweud: 3%

# Pwysau Iach

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

## Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, allai eich atal rhag cymryd camau i gyrraedd neu gynnal pwysau iach (dewishwch bob un sy’n berthnasol)?*^

| | |
|---|---|
| Dim yn y feddylfryd iawn i ddechrau | 43% |
| Eich iechyd | 35% |
| Gormod o demtasiynau | 34% |
| Dim digon o amser | 31% |
| Methu fforddio bwyd iach | 19% |
| Eich swydd | 19% |
| Dylanwad fy ffrindiau, teulu, cydweithwyr | 17% |
| Methu fforddio'r adnoddau/offer i wneud ymarfer corff | 16% |
| Arall | 14% |
| Dim digon o wybodaeth i gymryd camau | 7% |

*Data heb eu pwysoli, ni ofynnwyd y cwestiwn i'r 52 o bobl a ddywedodd eu bod yn ysgafnach nag y credant y dylent fod

^Gwell gennyf beidio â dweud: 2%

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus *Cymru* | Time to Talk Public Health *Wales*

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Eisiau bod yn rhan o'r Panel?

Mae recriwtio i Banel Iechyd y Cyhoedd Amser i Siarad yn barhaus gan ein bod am siarad ag ystod eang o unigolion ledled Cymru.

Os ydych chi'n byw yng Nghymru ac yn 16+ oed, dyma'ch cyfle i gael eich clywed.

**SiaradICCymru.com**

**01663 761976**

**SiaradICCymru@wales.nhs.uk**

**Ymunwch â'r Panel**



**Sut mae'r Panel yn gweithio?**

**Dweud eich dweud!**

**Beth yw iechyd cyhoeddus?**

**Gwneud wahaniaeth!**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales


icc.gig.cymru

SiaradICCymru@wales.nhs.uk

02920 227744

Iechyd Cyhoeddus Cymru

@IechydCyhoeddus


**Eisiau dysgu mwy am sut i fyw bywyd iach a llewyrchus?**

**Eisiau darganfod sut i helpu eich cymuned i ffynnu?**

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru.**

World Health Organization Collaborating Centre On Investment for Health and Well-being


**Tîm y Prosiect:** Dr Catherine Sharp | Yr Athro Karen Hughes

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO CC) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru | Time to Talk Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Atodiad

Demograffeg – Panel a Sampl

Dulliau

# Demograffeg y Sampl Panel

| | | Sampl Panel N=2,555 | | Sampl Arolwg N=1,007 | | Poblogaeth* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyw* | Gwryw | 882 | 35% | 332 | 33% | 49% |
| | Benyw | 1639 | 64% | 666 | 66% | 51% |
| | Arall | 34 | 1% | 9 | 1% | - $ |
| Oedran (blynyddoedd)* | 16-29 | 387 | 15% | 122~ | 12% | 21% |
| | 30-49 | 921 | 36% | 294 | 29% | 29% |
| | 50-69 | 833 | 33% | 396 | 39% | 31% |
| | 70+ | 414 | 16% | 195 | 19% | 19% |
| Cwintel amddifadedd^ | 1 (Most) | 451 | 18% | 158 | 16% | 19% |
| | 2 | 496 | 19% | 203 | 20% | 20% |
| | 3 | 522 | 20% | 205 | 20% | 21% |
| | 4 | 529 | 21% | 209 | 21% | 21% |
| | 5 (Least) | 557 | 21% | 232 | 23% | 20% |

*16+ oed Cyfwerthoedd poblogaeth o: ONS Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Canol 2020. www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland; ^Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-diweddariad-llawn-ir-mynegai-gyda-graddfeydd-2019; $Data heb fod ar gael; ~Cwblhaodd 41 o ymatebwyr 16-29 oed yr arolwg a chawsant eu gwahodd i ymuno â'r panel. Er eu bod wedi'u cynnwys yn niferoedd sampl y panel, nid ydynt wedi'u recriwtio'n llawn eto.

# Demograffeg y Sampl Panel

| | | Sampl Panel N=2,555 | | Sampl Arolwg N=1,007 | | Poblogaeth* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ethnigrwydd^ | Gwyn | 2451 | 96% | 972 | 97% | 95% |
| | Ethnigrwydd cymysg | 18 | 1% | 12 | 1% | 1% |
| | Asaidd neu Asaidd Pryndeinig | 36 | 1% | 10 | 1% | 2% |
| | Du, Affricanaidd, Caribïaidd, Du Cymraeg neu Du Prydeinig | 16 | 1% | 1 | <1% | 1% |
| | Ethnigrwydd arall | 15 | 1% | 6 | 1% | 1% |
| | Gwell gennyf beidio â dweud | 9 | <1% | 6 | 1% | - $ |
| Bwrdd Iechyd# | BIP Aneurin Bevan | 418 | 16% | 177 | 18% | 19% |
| | BIP Betsi Cadwaladr | 581 | 23% | 211 | 21% | 22% |
| | BIP Caerdydd a'r Fro | 438 | 17% | 180 | 18% | 16% |
| | BIP Cwm Taf Morgannwg | 338 | 13% | 123 | 12% | 14% |
| | BIP Hywel Dda | 337 | 13% | 141 | 14% | 12% |
| | BI Addysgu Powys | 121 | 5% | 48 | 5% | 4% |
| | BIP Bae Abertaw | 322 | 13% | 127 | 13% | 12% |

*16+ oed; ^Mae amcangyfrifon ethnigrwydd y boblogaeth ar gyfer pob oed oherwydd nad oes data ar gael ar gyfer trigolion 65+ oed nad ydynt yn Wyn; Ystadegau Cymru https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Ethnicity; $$Data heb fod ar gael. #Amcangyfrifon poblogaeth 16+; Ystadegau Cymru, https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Health-Boards/populationestimates-by-lhb-age; BIP – Bwrdd Iechyd Prifysgol.

# Dulliau

- Gosodwyd targed o 2,500 o aelodau'r panel er mwyn cael sampl arolwg misol o tua 1,000 o ymatebion, gydag amcangyfrif o gyfraddau ymateb i arolygon misol yn uchafswm o 50%.
- I gyrraedd ystod o unigolion, defnyddiwyd tri dull recriwtio:
  - Ffon
  - Cyfryngau cymdeithasol
  - Wyneb yn wyneb
- Cafodd cwmni ymchwil i'r farchnad proffesiynol (DJS Research Limited) ei gaffael i gynnal y recriwtio a'r arolygon misol.
- Defnyddiwyd samplu cwota haenog wrth recriwtio dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Cwotâu wedi'u cymhwyso i:
  - Daearyddiaeth (Bwrdd Iechyd)
  - Oed
  - Rhyw
  - Cwintel Amddifadedd (MALC*)
- Roedd targedu cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar fylchau demograffig mewn recriwtio.
- Cwblhaodd aelodau'r panel arolwg recriwtio cychwynnol a gofynnir iddynt gwblhau arolygon 15-20 munud bob yn ail mis. Cynhelir arolygon ar-lein neu dros y ffôn bob yn ail fis, yn dibynnu ar ddewis y sawl sy'n cymryd rhan.

*Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae rhagor o fanylion methodolegol ar gael ym mhrotocol y prosiect.

# Dulliau – Arolwg Bob yn Ail Fis

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

- Ar gyfer pob arolwg, gwahoddir holl aelodau'r panel i gwblhau'r holiadur trwy’r dull y maent yn ei ffafrio (ffôn neu ar-lein). Rhoddir tair wythnos i aelodau’r panel gwblhau'r arolwg. O fewn yr amserlen honno, nodir bylchau yn y proffil demograffig i gyflawni sampl sy’n cynrychioli’r genedl, ac anfonir nodiadau atgoffa i gwblhau'r arolwg.
- Er mwyn cynyddu cynrychiolaeth y grwpiau hynny o bobl na chlywir ganddynt yn aml, cynhelir hyd at 100 o gyfweliadau wyneb yn wyneb fesul arolwg gyda grwpiau a bennwyd ymlaen llaw. Gwahoddir yr unigolion hyn i gwblhau'r arolwg ac yna i ymuno â'r panel.
- Cwblhaodd y cyfranogwyr (N=1,007) arolwg Chwefror/Mawrth drwy’r dulliau canlynol:

| Dull Cyfranogiad | n | % |
|---|---|---|
| Ar-lein | 788 | 78% |
| Ffôn | 178 | 18% |
| Wyneb yn wyneb | 41 | 4% |